# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI
# 12-10-10

**Yn Bresennol:** Cynghorydd Peter Read (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Robert J. Wright, Ioan Thomas (Cyngor Gwynedd), Cynghorydd Michael Sol Owen (Cyngor Tref Pwllheli), David Dewsbury a Brian Edmunds, (Cymdeithas Cychod Hafan Pwllheli), Glynne Roberts (Cymdeithas Pysgotwyr Llŷn), John Morris (Cymdeithas Masnachwyr Morwrol)

**Hefyd yn bresennol:** Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), Wil Williams, (Rheolwr Hafan Pwllheli), Huw Davies, (Prif Beiriannydd), Llyr B. Jones (Uwch Reolwr Economi a Chymuned), Ken Fitzpatrick (Swyddog Morwrol Cynorthwyol Harbyrau) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Sion Roberts (Cyngor Gwynedd), Owie Roberts (Cymdeithas Pysgotwyr Llŷn) a Harbwrfeistr Pwllheli

## 1. CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Peter Read yn Gadeirydd y Pwyllgor am 2010/11.**

## 2. IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol Mr David Dewsbury yn Is-gadeirydd y Pwyllgor am 2010/11.**

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Ymgynghorol a gynhaliwyd ar 23 Mawrth, 2010 fel rhai cywir.

## 5. ADRODDIAD Y GWASANAETH MORWROL

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig gyda sylw'n cael ei roi i wahanol faterion yn unigol:

***Mordwyo a Charthu***

Adroddodd y swyddog yr archwiliwyd yr holl gymhorthion mordwyo yn yr harbwr gan swyddog o Dŷ'r Drindod ac adroddodd yr arolygydd bod y mwyafrif ohonynt mewn cyflwr da a bod hyn yn destun canmoliaeth. Cynhaliwyd hefyd, archwiliad gweinyddol manwl o'r holl gymhorthion mordwyo yng Ngwynedd gan Dŷ'r Drindod.

Nododd bod peipen arllwyso carthion Hafan y Môr, sy'n perthyn i Dŵr Cymru, ac a leolwyd yn agos at y traeth ym Marian y De, ar y safle cywir erbyn hyn, ond nad yw'r llusern wedi ei leoli ar y cymorthydd mordwyo. Gwnaed pob ymdrech gan Dŷ'r Drindod i gysylltu â Dŵr Cymru ynglyn â'r mater a disgwylir y byddai'r cwmni gwasanaethau'n rhoddi sylw i'r gofyn hwn yn ystod misoedd y gaeaf.

Mae'n hanfodol i staff yr harbwr baratoi a gweithredu rhaglen cynnal a chadw'r harbwr rhwng Hydref a Rhagfyr a fyddai'n cynnwys rhaglen gynhwysfawr ar gyfer cynnal a chadw'r cymhorthion mordwyo. Tra gosodwyd y rhain yn y safleoedd mwyaf ffafriol i'r morwr pan ddyluniwyd y marina, mae angen adolygu eu safleoedd presennol. Mae cael mynediad at y cymhorthion sydd ar yr adain hyfforddi yn waith heriol, ac mae'n hollbwysig i leihau'r risg a wyneba'r staff sy'n eu cynnal a chadw. Serch hynny, mae'n allweddol bwysig bod y cymhorthion yn derbyn sylw cyn dechrau tymor hwylio 2011.

Cafodd y Bwi Sianel Mordwyo ei amnewid ac aed a'r bwi gwreiddiol i'r lan er mwyn ei gynnal a'i gadw. Mae'r ddau fwi porthladd a leolwyd ar hyn o bryd ger y fynedfa i'r harbwr, angen eu hatgyweirio'n llwyr, a dylid ystyried ail-leoli'r cymhorthion mordwyo pwysig hyn y fuan. Mae lled y sianel wedi culhau oherwydd dyddodion naturiol o ddeunyddiau glan y môr ger y fynedfa i'r harbwr. Oherwydd yr anawsterau posibl wrth ail-leoli'r cymhorthion mordwyo i'r porthladd, dylid rhoddi ystyriaeth pellach i osod llusernau ar y marcwyr tros dro sy'n dangos lled y sianel wrth fynedfa'r harbwr.

Yn dilyn y gwaith carthu cymharol lwyddiannus a gynhaliwyd yn yr harbwr bron yn fisol ers Ionawr 2010, cynhaliwyd arolwg hydrograffig o'r ardal cyfagos yn ddiweddar a oedd yn cynnwys y cyfan o fasn y marina a'r sianel a arweiniai at y marina. Ymddengys o'r arolwg bod dyfnder y dŵr yn y sianel ac ym masn y marina yn cydymffurfio, fel ag y mae ar hyn o bryd, gyda'r dyfnderoedd yn nyluniad gwreiddiol y marina, a bod y gwaith carthu wedi cyrraedd ei nod. Disgwyliwyd i'r gwaith carthu gael ei gwblhau cyn diwedd Mawrth 2010 ond oherwydd cymhlethdodau technegol a gweithredol a ddaeth i'r amlwg, fe barhaodd y gwaith carthu tan Gorffennaf 2010.

Gofynnodd aelod pa bryd y byddai'n ofynnol i'r harbwr gael ei garthu eto. Mewn ymateb, hysbysodd y swyddog ei bod yn ddibynnol y gellid sicrhau'r cyllid angenrheidiol ond byddai'n rhaid gweithredu os y canfyddir anawsterau mawr yn yr harbwr.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, hysbysodd y swyddog bod llif y dŵr yn mynd drwy'r stanciau ac efallai ar gyfer y dyfodol y bydd yn ofynnol symud y stanciau i'r ochr arall er mwyn sicrhau bod y sianel fordwyo'n cael ei chadw'n lân.

***Digwyddiadau***

Rhoddodd y swyddog fanylion am y digwyddiadau hwylio cenedlaethol a rhyngwladol a gynhaliwyd ym Mhwllheli yn ystod 2010.

Diolchwyd i Glwb Hwylio Pwllheli am eu hymroddiad a'u cydweithrediad yn ystod y digwyddiadau.

Nododd y rhoddwyd gwobr y Faner Las Rhyngwladol i draeth Pwllheli a Hafan Pwllheli yn 2010, ac enillodd Hafan Pwllheli'r wobr "Five Anchors" yn ogystal. Enillodd Traeth Glandon y wobr Arfordir Gwyrdd a bu'r cais am Wobr Traeth Gwledig i Draeth Glandon yn llwyddiannus hefyd. Os bydd ansawdd y dŵr ymdrochi'n cyrraedd y safon gofynnol y tymor hwn, bydd yr Uned Forwrol yn cyflwyno cais am Wobr Traeth ar gyfer 2011 i Ymgyrch Cadw Cymru'n Daclus.

O ystyried y glaw cymharol drwm a gafwyd yn ystod yr haf, mae'n bosibl na fydd rhai traethau yng Ngwynedd yn cyrraedd y gofynion o ran ansawdd y dŵr ymdrochi.

***Ystadegau'r Harbwr***

Cyfeiriodd y swyddog at nifer o atodiadau a oedd ynghlwm â'r adroddiad a gofynnodd i'r aelodau am eu barn ynglyn â'r hyn y dymunent ei gynnwys o hyn ymlaen yn yr atodiadau hyn.

Adroddodd y swyddog yn llawn ar niferoedd y cychod sydd wedi eu hangori yn yr Hafan a'r harbwr allanol yn ogystal â'r badau dŵr personol a'r cychod pŵer a gofrestrwyd gyda'r Cyngor.

'Roedd 140 o gychod pleser wedi angori yn yr harbwr allanol eleni o'i gymharu â 151 yn 2009. Felly defnyddiwyd 77% o'r angorfeydd, sef gostyngiad o 1%. O'r angorfeydd hyn, defnyddiwyd 52% ohonynt gan breswylwyr lleol sy'n byw yng Ngwynedd ar sail parhaol, a 48% gan bobl sy'n byw tu allan i'r sir. Yn y marina, 'roedd 99% o'r angorfeydd yn cael eu defnyddio, gyda'r ddwy angorfa sy'n weddill yn cael eu cadw ar gyfer cychod oedd yn ymweld yno. Mae nifer yr unigolion a gofrestrwyd ar restr aros y marina yn 195 ar hyn o bryd.

Nododd bod nifer o gychod yn ystod misoedd yr haf yn ceisio lansio ar draethau Abersoch a Morfa Bychan gan ddefnyddio trwyddedau cofrestru ffug. Rhoddwyd gwybodaeth i'r heddlu a chymerwyd oddeutu ugain trwydded ffug ymaith. Nid oes tystiolaeth hyd yn hyn pwy sy'n gyfrifol am gynhyrchu'r trwyddedau hyn.

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed rhai cyfleusterau gwael yn yr harbwr, hysbysodd y swyddog y rhoddir ystyriaeth pellach i'r mater.

Mewn ymateb i sylw gan aelod arall pathed y rhestr aros, hysbysodd y swyddog bod pob unigolyn sydd wedi cofrestru ar y rhestr wedi gorfod talu £50 a rhoddwyd ystyriaeth hefyd i godi'r tâl i £100. Nododd ei bod yn bositif bod nifer o gychod ar y rhestr aros ac mae Rheolwr yr Hafan yn ceisio perswadio pawb sy'n gwneud ymholiadau i fynd ar y rhestr aros. Pwysleisiodd y pwysigrwydd o sicrhau nad oes angorfa gwag yn yr harbwr er mwyn uchafu'r incwm i'r Cyngor. Cyfeiriodd aelod at y posibilrwydd o gael rhestr aros dwy-haen sef un ar gyfer y rhai sydd wedi gwneud ymholiadau a'r llall ar gyfer y rhai mae'r Rheolwr wedi cysylltu â hwy unwaith neu ddwywaith.

***Cyllidebau***

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiadau ar gyllid terfynol Harbwr a Hafan Pwllheli am y flwyddyn ariannol 2009/10. Yn ogystal cyflwynwyd targedau incwm a gwariant yr holl harbyrau a thraethau am y flwyddyn 2010/11.

Pwysleisiodd yr angen i fod yn wyliadwrus yn ystod y misoedd nesaf er mwyn sicrhau nad yw'r gwasanaeth yn rhwymo mwy o arian na'r hyn sy'n y gyllideb. Darperir rhaglen cynnal a chadw manwl ar gyfer tymor yr hydref er mwyn adnabod blaenoriaethau gwariant yn yr harbwr.

Nododd mai £118,280 yw targed incwm yr harbwr allanol yn y flwyddyn ariannol presennol. Mae'r incwm o'r harbwr allanol yn £98,510 erbyn hyn, sef £19,770 yn is na'r targed. Ni ragwelir ychwanegiad sylweddol i'r incwm rhwng Hydref 2010 a Mawrth 2011.

Nododd hefyd mai £1,562,630 yw targed incwm yr Hafan yn y flwyddyn ariannol presennol ac mai cyfanswm yr incwm hyd yn hyn yw £1,45,393, sef £117,236 yn fyr erbyn diwedd Awst 2010. Er y diffyg presennol, disgwylir cyrraedd y targed incwm yn yr Hafan.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed cael manylion manylach ar y gyllideb, addawodd y swyddog roddi sylw pellach i'r mater.

***Ffioedd a Chostau ar gyfer 2011/12***

Adroddwyd y bydd yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig, yn ystod yr wythnosau nesaf, yn adolygu'r ffioedd cyfredol ac yn cynnal ymchwiliad i'r farchnad er mwyn argymell

ffioedd a chostau i harbyrau, marinas a thraethau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Disgwylir y cyflwynir yr adroddiad i'r Swyddogion Statudol a'r Arweinydd Portffolio er ei gymeradwyo. O ganlyniad i ansicrwydd a chyflwr bregus yr economi'n gyffredinol, ni ddisgwylir y byddai'r ffioedd a chostau angori yn Hafan Pwllheli a Harbwr Allanol Pwllheli'n cael eu codi tu hwnt i chwyddiant ym mlwyddyn ariannol 2011/12. Rhoddir ystyriaeth i ddiwygio'r system bresennol o godi tâl am angori'n ystod y gaeaf a diwygio'r costau'n ymwneud â thrydan, hefyd yn ystod cyfnod y gaeaf. Pwysleisiodd y swyddog y byddai'n rhaid ystyried yn ofalus gan y byddai unrhyw gynnydd mewn TAW o fis Ionawr 2011 ymlaen yn cynyddu'r gost i'r cwsmer ond hefyd yn cynyddu refeniw net i'r Cyngor. Gan bod rhai newidiadau sylweddol yn ymwneud â rhai angorfeydd yn yr harbwr allanol, bydd rhaid i'r Uned Forwrol unwaith eto roddi ystyriaeth i gwtogi rhai ffioedd gan bod dyfnder y dŵr o dan y cilbren yn lleihau.

***Cynnal a Chadw Angorfeydd***

Adroddwyd y cydlynir, yn ystod misoedd y gaeaf, y gwaith o archwilio a chynnal a chadw angorfeydd yr harbwr wrth baratoi ar gyfer 2011. Bydd yr Uned Forwrol yn archwilio angorfeydd yn ardaloedd sychaf yr harbwr. Bydd pob angorfa wlyb arall dan awdurdod harbwr Pwllheli'n cael ei harchwilio a'i chynnal gan gontractwr a benodwyd, a disgwylir y bydd y gwaith yn dechrau yn Ionawr 2011. Gwahoddir contractwyr priodol cymwys i dendro am y gwaith. Nodwyd mai £1,850 oedd y gost o archwilio a chynnal angorfeydd yn yr harbwr allanol yn 2010.

***Tymestl Arw mis Gorffennaf 2010***

Nododd y swyddog y trawyd harbyrau a thraethau Gwynedd gan dymestl arw ar 15 a 16 Gorffennaf 2010. Cofnodwyd cyflymder gwynt o hyd at 85 milltir yr awr yn Aberdaron yn ystod oriau mân 16 Gorffennaf ac amcangyfrifwyd bod cyflymder y gwynt yn harbwr mewnol Porthmadog wedi cyrraedd grym 10 ar raddfa *Beaufort*. Dim ond mân ddifrod a gafwyd ym Mhwllheli ond cafwyd cryn ddifrod yn harbwr Porthmadog.

***Cyfarfodydd Pwyllgrau Harbwr***

Adroddodd y swyddog ar gais a dderbyniwyd gan Gyngor Cymuned Aberdyfi i Gyngor Gwynedd ystyried cynnal un cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor Harbwr unai yn ystod misoedd yr haf, neu ar ddiwedd mis Rhagfyr/dechrau mis Ionawr a fyddai'n cynnwys cynrychiolwyr o bob un o'r pedwar Pwyllgor Harbwr.

Atgoffodd yr aelodau bod cynrychiolwyr o'r Pwyllgorau Harbwr eraill eisoes yn aelodau cyfetholedig o bob un o'r Pwyllgorau Harbwr ac y cyflwynwyd y cynllun hwn gan yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig er mwyn sicrhau bod y wybodaeth sy'n berthnasol i bob harbwr yn cael ei rannu rhwng y pwyllgorau. Nododd mai barn yr uned yw bod y system bresennol yn gweithredu'n unol â'r Adolygiad Porthladdoedd Bwrdeistrefol ac yn galluogi aelodau i dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf ac i gyfrannu a chyflwyno sylwadau ar Gôd Diogelwch Morol Porthladdoedd yr harbwr presennol.

Hysbysodd y swyddog ymhellach yr ystyriwyd y cais hefyd gan Bwyllgorau Harbwr Porthmadog ac Abermaw ac fe'i ystyrir gan Bwyllgor Harbwr Aberdyfi yr wythnos nesaf. Barn aelodau Pwyllgor Harbwr Porthmadog oedd na ddylid cynnal cyfarfod ychwanegol ond 'roedd aelodau Pwyllgor Harbwr Abermaw o'r farn y dylid cynnal cyfarfod ychwanegol.

Nododd y bwriedir edrych ar gyfansoddiad Pwyllgorau Harbwr Pwllheli, Abermaw ac Aberdyfi yn ystod y misoedd nesaf. Rhoddir ystyriaeth hefyd, bod yr argymhellion a wneir gan y pwyllgorau harbwr yn cael eu bwydo i mewn i bwyllgor perthnasol o fewn y Cyngor.

**PENDERFYNWYD gwrthod cais Cyngor Cymuned Aberdyfi i gynnal cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor Harbwr.**

**PENDERFYNWYD derbyn adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig.**

## 6. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL

**Cymdeithas Cychod Hafan Pwllheli**

### a) Taliadau Trydan Hafan Pwllheli

Cyfeiriodd aelod at y ffaith bod y taliadau trydan yn Hafan Pwllheli yn annheg i nifer o aelodau'r Gymdeithas oherwydd bod y taliadau yn seiliedig ar hyd y cychod yn hytrach na'r defnydd a wneir o'r trydan. Nododd bod y taliadau'n cynyddu'n flynyddol i gyd-fynd â'r ffioedd angori. 'Roedd o'r farn y telir mwy am y trydan na'r hyn sy'n cael ei ddefnyddio gan gychod bychan.

**PENDERFYNWYD bod y swyddogion perthnasol i roddi ystyriaeth pellach i'r mater.**

### b) Cyllidebau'r Hafan a Harbwr Pwllheli

Tynnwyd sylw gan aelod y dylid sicrhau cyllideb dibynadwy ar gyfer yr Hafan a Harbwr Pwllheli. Nododd y swyddog y byddai'n bosibl cynyddu'r taliadau incwm ond byddai hyn yn anodd heb gynyddu'r costau gwariant. Bwriedir ystyried pob posibilrwydd ymhellach gan drafod y mater ymhellach gyda'r Adran Gyllid.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth**

### c) Cymorthyddion mordwyo ger y fynedfa i'r harbwr

Cyfeiriodd aelod at y ffaith bod un o'r bwiau ger y fynedfa i'r harbwr angen ei ail-leoli gan nad yw'r cymhorthydd mewn safle a fyddai'n addas ar gyfer arwain morwyr i'r harbwr. Addawodd y swyddog roddi sylw i hyn.

## 7. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nodwyd y cynhelir cyfarfod nesaf o Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli ar 29 Mawrth 2011.

Dechreuodd y cyfarfod am 6.00pm a daeth i ben am 7.45pm

**CADEIRYDD**